**GRŴP FFRAMWAITH IECHYD A LLES ANIFEILIAID CYMRU**

**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd 15 Rhagfyr 2016**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Jo Price | Cadeirydd |
| Christianne Glossop | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Huw Davies | |
| Ifan Lloyd | |
| David Davies | |
| Moss Jones | |

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Lesley Griffiths | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (Eitem 8) |
| Carol Harris | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Janet Perry | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Suzanne Lewis | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Irene Allen | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) (Eitem 8) |
| Tom Henderson | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) (Eitem 8) |
| Sally Williams | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) (Eitem 8) |
| Helen Minnice –Smith | (Eitem 5) |
| Lesley Stubbings | (Eitem 6) |
| Kevin Roberts | Cadeirydd Amaeth Cymru (Eitem 7) |

**Ymddiheuriadau**

Peredur Hughes Cadeirydd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

**<u>Eitem Agenda 1: Croeso</u>**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i unfed cyfarfod ar ddeg y Grŵp. Eglurodd y Cadeirydd fod Peredur Hughes wedi ymddiheuro am ei absenoldeb. Dywedodd y byddai Helen Minnice-Smith (LIC) yn ymuno â'r cyfarfod i drafod peth o'r gwaith sy'n cael ei wneud, gan edrych ar yr heriau i gynhyrchu anifeiliaid o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Eglurodd y byddai Lesley Stubbings (ymgynghorydd defaid annibynnol) hefyd yn ymuno â'r cyfarfod i drafod goblygiadau Adroddiad Terfynol Prosiect WAARD (Cymru yn erbyn Datblygiad Ymwrthedd Anthelmintig), a fydd yn sail i gyflwyniad Lesley yn y man.

2. Eglurodd y Cadeirydd hefyd y byddai Kevin Roberts, Cadeirydd Grŵp Partneriaeth Amaeth Cymru yn ymuno â'r cyfarfod yn y prynhawn i roi diweddariad ar eu gwaith. Byddai Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn ymuno â'r cyfarfod am yr awr olaf i drafod Perchnogaeth Gyfrifol a Dofednod.

3. Croesawodd y Cadeirydd Suzanne Lewis hefyd i'r cyfarfod a dywedodd ei bod wedi ymuno â Thîm yr Ysgrifenyddiaeth yn ddiweddar. Nododd hefyd y byddai Sally Williams, milfeddyg wedi'i secondio o APHA yn ymuno â'r cyfarfod fel sylwedydd yn y prynhawn.

**Eitem Agenda 2: Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu o 12 Mehefin**

4. Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion terfynol a phwyntiau gweithredu wedi eu diweddaru wedi cael eu e-bostio i Aelodau'r Grŵp fel rhan o'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn.

5. Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir.

**Eitem Agenda 3: Diweddariad gan y Cadeirydd**

6. Cafwyd y diweddariad canlynol gan y Cadeirydd;

**a) Y broses Penodiadau Cyhoeddus**

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod hi, Ifan, Moss a Dai wedi'u hailbenodi am 3 blynedd arall gan Ysgrifennydd y Cabinet. Dywedodd fod hysbyseb i recriwtio dau aelod newydd o'r Grŵp wedi'i gyhoeddi ar wefan Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, ac mewn amryw o gyhoeddiadau eraill. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais yw 6 Ionawr. Bydd y dethol yn digwydd ym mis Chwefror a bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ym mis Mawrth. Dywedodd y byddai'r Grŵp yn cael ei hysbysu o'r datblygiadau.

**b) Diweddariad o gyfarfod y Pedwar Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd fod Peredur wedi bod yn bresennol yng Nghadeirydd y Pedwar Cadeirydd yng Nghaeredin ar 21 Medi 2016. Roedd yn gyfarfod da iawn, a bu trafodaeth ar Refferendwm yr UE a'r goblygiadau i Iechyd Anifeiliaid, Gwyliadwriaeth, BVD ac AMR. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Lloegr ym mis Mawrth.

**c) Diweddariad ar BVD**

Dywedodd y Cadeirydd fod yr Is-grŵp BVD wedi cael cymeradwyaeth ffurfiol i'w gais Cam 1 am gyllid Cymunedau Gwledig – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru. Mae hyn ar gyfer elfennau fel sefydlu strwythur llywodraethu, cynllunio cyfathrebu, hyfforddi milfeddygon a chasglu data. Dywedodd fod cyfarfodydd dal i fyny pob pythefnos yn cael eu cynnal gyda'r Is-grŵp BVD sydd wedi cyrraedd y camau olaf o baratoi eu cais am gyllid Cam 2. Cyfarfu'r Is-grŵp BVD â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru ar 23 Tachwedd i drafod y cais. Roedd yn gyfarfod buddiol gyda phawb yn datgan eu cefnogaeth i'r cynllun.

**d) Diweddariad ar y Clafr**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Grŵp am gwrdd ar 18 Tachwedd lle buont yn trafod

canlyniadau'r arolwg ar y clafr a'r argymhellion ar gyfer y ffordd orau ymlaen. Gofynnodd i Ifan a Moss i'w diweddaru ar y sefyllfa ddiweddaraf.
Dywedodd Moss ei fod wedi cwrdd â'r NFU, FUW a'r NSA i drafod canlyniadau'r arolwg. Achos pryder penodol oedd y camddefnydd ymddangosiadol o gynnyrch i drin y clafr. Cytunwyd fod angen mwy o bwyslais ar drosglwyddo gwybodaeth i helpu i roi sylw i hyn. Bydd cyfarfod arall ym mis Ionawr i ystyried llunio cynnig i wneud cais am gyllid Cymunedau Gwledig – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru. Dywedodd Ifan y bydd angen iddo ofyn i'r Athro Wall a oes modd canfod y ffermydd gyda'r nifer mwyaf o achosion, ffermydd sy'n cael problemau'n flynyddol ac ardaloedd clwstwr posibl.

***Pwynt Gweithredu 1 > Ifan i gysylltu â'r Athro Wall ynglŷn â dadansoddiad ychwanegol o ganlyniadau'r arolwg.***

**f) Ymgynghoriad ar Bolisi Adnoddau Naturiol**

Eglurodd y Cadeirydd fod yr Ysgrifenyddiaeth wedi dosbarthu dolen at yr ymgynghoriad ar ddatblygiad Polisi Adnoddau Naturiol ar 29 Tachwedd. Dywedodd mai un o'r canlyniadau strategol o fewn AHWF Cymru yw bod gan Gymru amgylchedd o ansawdd da ac felly mae'n bwysig bod y Grŵp yn ystyried yr ymgynghoriad hwn o safbwynt iechyd a lles anifeiliaid, gyda bioamrywiaeth yn faes allweddol. Mae gan ddatblygiad Polisi Adnoddau Naturiol hefyd gysylltiad agos â gwaith sy'n cael ei wneud i ystyried goblygiadau Canlyniad Refferendwm yr UE a'r Gymru yr hoffem ei gweld yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Peredur a Dai yn bresennol mewn gweithdy Polisi Adnoddau Naturiol ar 7 Rhagfyr. Y prif bryder oedd y diffyg pwyslais ar iechyd a lles anifeiliaid. Cytunodd y Grŵp ei bod yn bwysig eu bod yn datgan eu barn yn yr ymgynghoriad ac y byddant yn anfon eu sylwadau at yr Ysgrifenyddiaeth er mwyn cyflwyno ymateb fel Grŵp.

***Pwynt Gweithredu 2> Pob aelod i ystyried yr ymgynghoriad ar Bolisi Adnoddau Naturiol ac yn anfon eu sylwadau i Flwch Post yr Ysgrifenyddiaeth.***

.

**<u>Eitem Agenda 4: Diweddariad gan Christianne</u>**

7. Cafwyd y diweddariad canlynol gan Christianne;

**a) Is-grŵp Iechyd a Lles Gwartheg ar AMR**

Dywedodd Christianne fod Gavin yn bresennol mewn cyfarfod o'r Is-grŵp a sefydlwyd gan CHAWG i ystyried AMR. Roedd y Grŵp yn gytûn ei bod yn bwysig ei fod yn cael ei gynrychioli yn y cyfarfodydd hyn a chytunodd i ystyried pa aelod ddylai fod yn bresennol.

***Pwynt Gweithredu 3> Y Grŵp i ystyried pwy sydd yn y sefyllfa orau i fynychu'r Is-grŵp CHAWG ar AMR.***

**b) Ffliw Adar**

Cafwyd diweddariad gan Christianne ar y sefyllfa ddiweddaraf parthed ffliw adar fel yr oedd ar 15 Rhagfyr. Croesawodd y Grŵp y diweddariad a gofynnodd am gael ei hysbysu o unrhyw ddatblygiadau. Gofynnodd Dai a fyddai modd fel rhan o'r broses o wneud cais am Grantiau Datblygu Busnes i sicrhau bod unrhyw siediau dofednod newydd sy'n cael eu hadeiladu'n addas o safbwynt iechyd a lles anifeiliaid y dofednod.

**c) Ymarferiad ar Glwy'r Traed a'r Genau**

Dywedodd Christianne ei bod wedi cymryd rhan mewn ymarferiad i brofi Cynllun Wrth Gefn Clwy'r Traed a'r Genau. Roedd yr ymarferiad yn un positif iawn, gan dynnu sylw at bwysigrwydd profi cynlluniau wrth gefn a chydweithio'n agos â'r holl bartneriaid.

**d) Bioddiogelwch Ceffylau**

Dywedodd Christianne ei bod yn bresennol yng Nghynhadledd Lles Ceffylau'r Byd. Roedd hon yn gynhadledd fuddiol iawn ac fel dilyniant, mae cyfres o gyfarfodydd wedi'u trefnu i drafod bioddiogelwch ceffylau. Cytunodd y Cadeirydd i drafod y posibilrwydd o gynnal Cynhadledd Bioddiogelwch Ceffylau yng Nghymru, ac a fyddai modd cynnal digwyddiad yn Sioe Frenhinol Cymru.

***Pwynt Gweithredu 4> Y Cadeirydd a Christianne i drafod y posibilrwydd o gynnal Cynhadledd Bioddiogelwch Ceffylau yng Nghymru a'r opsiwn o gynnal digwyddiad yn Sioe Frenhinol Cymru.***

**e) TB Buchol**

Dywedodd Christianne fod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig wedi gwneud datganiad ar yr ymgynghoriad ar gyfer Rhaglen wedi'i Diweddaru i Ddileu TB. Dywedodd fod y Rhaglen Dileu TB hefyd yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Cytunodd y Grŵp i ymateb i'r ymgynghoriad.

**Pwynt Gweithredu 5> Aelodau'r Grŵp i anfon sylwadau ar yr Ymgynghoriad TB i Flwch Llythyrau'r Ysgrifenyddiaeth.**

***Pwynt Gweithredu 6> Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu dolen at gofnod trafodion y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar TB.***

Bu'r Grŵp yn trafod pwysigrwydd cyfleu negeseuon clir am y Rhaglen wedi'i Diweddaru i Ddileu TB a chytunodd i ystyried y ffordd orau o gyfleu'r negeseuon hyn. Cytunodd y byddai'r tîm polisi TB yn paratoi papur ar y prif negeseuon i sicrhau cysondeb.

***Pwynt Gweithredu 7> Aelodau'r Grŵp i ystyried y ffordd orau o gyfleu negeseuon am TB i ffermwyr ac i gynyddu dealltwriaeth o gynigion yr ymgynghoriad.***

***Pwynt Gweithredu 8> Yr Ysgrifenyddiaeth i ofyn i'r Tîm Polisi TB i baratoi papur diweddaru ar y prif negeseuon i sicrhau cysondeb ar y mater.***

**Eitem Agenda 5: Diweddariad gan Helen Minnice-Smith ar Grŵp Newid Hinsawdd y Diwydiant**

8. Croesawodd y Cadeirydd Helen Minnice-Smith (LIC) i'r cyfarfod ac eglurodd y byddai'n diweddaru'r Grŵp ar y gwaith sy'n cael ei wneud i ystyried yr effaith y bydd hinsawdd sy'n newid yn ei gael ar gynhyrchu anifeiliaid.

9. Roedd cyflwyniad Helen ar y rhaglen Datgarboneiddio. Eglurodd mai prif ddiben y rhaglen oedd rheoli datblygiad Cymru i fod yn economi carbon isel, yn unol â fframwaith statudol Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau; ac i sicrhau bod Cymru'n cael y buddiannau a'r gwerth am arian mwyaf posibl yn sgil y newid hwn. Eglurodd y byddai'r gwaith yn digwydd mewn tri cham rhwng hyn a 2020. Mae cynlluniau hefyd i gynnal gweithdy ym mis Ionawr a bydd gwahoddiad yn cael ei estyn i aelodau'r Grŵp. Dilynir hyn gan Ymgynghoriad Cyhoeddus yn y Gwanwyn. Cytunodd y Grŵp i ystyried ac i ymateb i'r ymgynghoriad.

***Pwynt Gweithredu 9> Helen i wahodd aelodau'r Grŵp i weithdai ym mis Ionawr***

10. Diolchodd y Cadeirydd i Helen am ei diweddariad a gofynnodd a fyddai'n bosibl i'r Grŵp gael papur byr ar y prif argymhellion a negeseuon.

***Pwynt Gweithredu 10> Helen i gyflenwi papur byr ar y Rhaglen Ddatgarboneiddio***

**Eitem Agenda 6: Diweddaru a thrafod y Prosiect WAARD (Cymru yn Erbyn Datblygiad Ymwrthedd Anthelmintig) a gwaith SCOPS - Lesley Stubbings**

11. Croesawodd y Cadeirydd Lesley Stubbings (ymgynghorydd defaid annibynnol) i'r cyfarfod. Dywedodd y byddai Lesley yn rhoi cyflwyniad ar oblygiadau canlyniadau'r WAARD a gwaith SCOPS o safbwynt arafu Ymwrthedd Anthelmintig.

12. Cyflwynodd Lesley ei chyflwyniad. Eglurodd arwyddocâd canlyniadau'r WAARD a'r casgliadau. Roedd y rhain yn cynnwys;

- Mae Ymwrthedd Anthelmintig yn fygythiad cynyddol i bob fferm ddefaid
- Mae'r clafr yn fygythiad mawr sy'n cyfrannu at y broblem hon
- Mae gweithredu'n gynnar yn hanfodol
- Mae tystiolaeth sy'n cadarnhau effeithiolrwydd egwyddorion SCOPS
- Mae'r grŵp o 4 a 5 cynnyrch anthelmintig yn allweddol i strategaethau'r dyfodol.

13. Cafwyd trafodaeth ar yr angen i annog ffermwyr defaid i weithredu cyn i ymwrthedd i anthelmintig ddod yn amlwg. Nododd y Grŵp hefyd y perygl o'r clafr a sut y gall hyn gysylltu'n ôl at y gwaith mae'r Grŵp yn ei wneud yng ngoleuni canlyniadau'r arolwg a gomisiynwyd ar y clafr. Tynnodd Lesley sylw hefyd at y

perygl o golli cynnyrch y farchnad oherwydd diffyg galw. Mae hyn hefyd yn peryglu datblygiad cynnyrch newydd.

14. Roedd pawb yn cytuno bod gan filfeddygon rôl allweddol i'w chwarae wrth drafod triniaethau â ffermwyr defaid ac mae angen meddwl sut y gellir gwella'r trafodaethau hynny. Cafodd nifer o gynlluniau eu crybwyll gan gynnwys Clybiau Iechyd Ffermydd, y cysylltiad â chynllunio iechyd anifeiliaid ac roedd Iechyd Da yn dechrau ystyried defnydd cyfrifol o feddyginiaethau. Cytunwyd fod addysg yn allweddol, yn enwedig trwy ysgolion milfeddygon a cholegau amaethyddol. Cytunodd Lesley i rannu manylion strategaeth gyhoeddusrwydd SOPS â'r Grŵp Group

***Pwynt Gweithredu 11> Lesley i anfon strategaeth gyhoeddusrwydd SCOPS at yr Ysgrifenyddiaeth.***

***Pwynt Gweithredu 12> Y Grŵp i ystyried sut y gellir ymgorffori Ymwrthedd Anthelmintig mewn cynllunio iechyd anifeiliaid***

***Pwynt Gweithredu 13> Lesley a'r Grŵp i ystyried y ffordd orau o drafod y mater hwn ag ysgolion milfeddygol a cholegau amaethyddol.***

**<u>Eitem Agenda 7: Diweddariad gan Kevin Roberts Fframwaith Strategol ar gyfer Grŵp Partneriaeth Amaeth Cymru</u>**

15. Croesawodd y Cadeirydd Kevin Roberts, Cadeirydd Grŵp Partneriaeth Amaeth Cymru i'r cyfarfod. Gofynnodd iddo eu diweddaru ar waith y Grŵp Partneriaeth ac am ddiweddariad ar sut y mae gwaith ar Adael yr UE yn dod yn ei flaen gan fod Kevin yn aelod o Grŵp Brexit lefel uchel y Prif Weinidog.
16. Eglurodd y Cadeirydd hefyd fod Peredur yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Grŵp AHWF Cymru wedi cael gwahoddiad ffurfiol i fod yn aelod o Grŵp Partneriaeth Amaeth Cymru – Is-grŵp Strategaeth.

17. Esboniodd Kevin mai prif amcan y Grŵp Partneriaeth oedd datblygu strategaeth i gyflwyno gweledigaeth ar gyfer amaethyddiaeth. Ers canlyniad Refferendwm yr UE, mae'r Grŵp wedi gorfod ailasesu'r ffordd ymlaen ac mae'n awr yn y broses o ddatblygu papur sefyllfa ar Adael yr UE. Roedd pawb yn cytuno bod masnach yn bwysig i'r Sector Cig Coch yng Nghymru a bod unrhyw ymyriad â'r fasnach honno yn y tymor byr yn fygythiad mawr. Roedd y materion eraill a drafodwyd yn cynnwys datblygu strategaeth frandio mwy ystyrlon i Gymru a threfniadau pontio.

18. Gofynnodd Huw a oedd angen milfeddyg fel aelod ar y Grŵp Partneriaeth. Dywedodd Christianne ei bod wedi cytuno â Kevin os bydd angen arbenigedd milfeddygol, y bydd yn gofyn iddi am gyngor.

19. Dywedodd y Cadeirydd fod angen lledaenu'r neges y gall safonau iechyd a lles anifeiliaid uchel warchod Cymru a'u bod yn hanfodol i unrhyw gytundebau masnachu yn y dyfodol.

20. Holodd Ifan am lefelau'r cymorth ariannol sydd ar gael i'r diwydiant. Eglurodd

Kevin fod bygythiadau i faint y gyllideb yn San Steffan ac felly i Lywodraeth Cymru a bydd mwy o graffu ar sut y mae amaethyddiaeth yn cael ei ariannu.

21. Pwysleisiodd Christianne bwysigrwydd y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar gyfraith Iechyd Anifeiliaid yr UE. Dywedodd fod agweddau allweddau ar y gyfraith hon a allai fod yn rhan o Fframwaith y DU. Bydd croesgyfeirio at y gyfraith hon hefyd yn helpu ag unrhyw negodiadau masnach yn y dyfodol.

22. Diolchodd y Cadeirydd i Kevin am ei ddiweddariad a phwysleisiodd pa mor bwysig yw hi fod y Grŵp yn parhau i weithio â'r Grŵp Partneriaeth a Bwrdd y Diwydiant Bwyd yn y dyfodol.

**<u>Eitem Agenda 8: Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig - i drafod Perchnogaeth Gyfrifol a'r Gofrestr Ddofednod</u>**

23. Croesawodd y Cadeirydd Ysgrifennydd y Cabinet i'r cyfarfod ac eglurodd y byddai'r drafodaeth yn cynnwys Perchnogaeth Gyfrifol sy'n flaenoriaeth allweddol i Weithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru 16/17 Llywodraeth Cymru a hefyd ymgysylltiad â'r sector dofednod, gan gynnwys Cofrestr Dofednod Prydain.

**Perchnogaeth Gyfrifol**

24. Dywedodd y Cadeirydd fod papur ar Berchnogaeth Gyfrifol wedi'i anfon at y Grŵp gan y tîm Polisi Lles. Mae'r papur yn amlinellu'r cefndir ar Berchnogaeth Gyfrifol ac mae'n gofyn am farn y Grŵp ar;

- Yr argymhellion yn Adolygiad yr RSPCA o Berchnogaeth Gyfrifol Cŵn
- Y ffordd orau o ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

25. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r drafodaeth yn canolbwyntio ar yr argymhellion o dan **Fater A: Wedi paratoi ar gyfer ac yn deall yr ymrwymiad a'r cyfrifoldeb sy'n dod yn sgil perchnogaeth.**

26. Holodd Huw am faint y broblem ynglŷn â Pherchnogaeth Gyfrifol a beth oedd y meincnod ar gyfer mesur effaith unrhyw gamau y cytunwyd arnynt. Dywedodd Christianne ei fod yn anodd ei fesur ac y byddai'n fuddiol pe byddai'r Grŵp yn ystyried Dangosyddion Perfformiad Allweddol, er enghraifft, nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu gadael, nifer yr erlyniadau, nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu cofrestru.

27. Nododd Ifan pa mor bwysig yw hi fod milfeddygon yn gysylltiedig â phrynu anifeiliaid yn y lle cyntaf, gan gynnwys dewis yr anifail, amgylchedd y cartref, costau posibl. Eglurodd ei bod yn anodd i filfeddygon gael y cyfle i gysylltu â'r bobl hyn cyn eu bod yn cael anifeiliaid anwes. Pwysleisiodd Dai hefyd bwysigrwydd costau a chyfleu'r neges.

28. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael ei ddiwygio ac y gall fod cyfle i gynnwys perchnogaeth gyfrifol yn y gwaith hwn, yn

enwedig gwaith o dan ABCh. Roedd y Grŵp yn cefnogi'r awgrym hwn a chytunodd mai'r sylfaen ar gyfer llawer o'r gwaith hwn yn y dyfodol fyddai addysg.

29. Cafwyd crynodeb gan y Cadeirydd o dri maes sydd angen ystyriaeth bellach;

- Ymgysylltu ag addysg a'r cwricwlwm cenedlaethol
- Ymgysylltu â rhieni (trwy ysgolion o bosibl)
- Gweithio i newid meddylfryd o ran perchnogaeth anifeiliaid anwes, yn enwedig cyn i bobl eu prynu.

30. Cynigiodd Ysgrifennydd y Cabinet ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar fater Perchnogaeth Gyfrifol.

***Pwynt Gweithredu 14> Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar fater Perchnogaeth Gyfrifol***

31. Nododd Moss y gallai'r Codau Ymarfer diwygiedig ar Les Anifeiliaid fod yn gyfrwng addysgol defnyddiol. Roedd Ifan yn cytuno ac awgrymwyd y dylid paratoi fersiwn hawdd ei darllen.

32. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad. Cytunodd y Grŵp i anfon sylwadau mwy manwl ar y papur Perchnogaeth Gyfrifol at dîm yr Ysgrifenyddiaeth. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn cyngor ar y ffordd ymlaen ar gyfer Ysgrifennydd y Cabinet.

***Pwynt Gweithredu 15> Y Grŵp i anfon sylwadau ar y papur Perchnogaeth Gyfrifol at yr Ysgrifenyddiaeth. Y tîm Polisi Lles Anifeiliaid i'w cynnwys mewn cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet ar y ffordd ymlaen.***

**Y Gofrestr Dofednod**

33. Dywedodd y Cadeirydd mai un o flaenoriaethau'r Grwpiau Fframwaith ar gyfer 2016/17 yw Ymgysylltu â'r Sector Dofednod. Un cam gweithredu o dan y flaenoriaeth hon yw gweithio ag asiantau darparu a phartneriaid yn y diwydiant i ymgymryd ag ymgyrch gyhoeddusrwydd i annog ceidwaid dofednod i gofrestru eu dofednod ar Gofrestr Dofednod Prydain.

34. Esboniodd y Cadeirydd fod yr Ysgrifenyddiaeth wedi gofyn am sylwadau cychwynnol gan y Grŵp a hefyd gan Arolygydd Marchnata Wyau Cymru o fewn yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA). Roedd yr awgrymiadau a gafwyd yn cynnwys;

- APHA i ysgrifennu a thargedu'r cwmnïau cyflenwi i:
    - Hysbysu / atgoffa eu cwsmeriaid bod gofyniad cyfreithiol i gadw cofnodion o ddofednod a werthir ganddynt ac i bwy h.y. enw, cyfeiriad, dyddiad a nifer.
    - Datgan bod pob ceidwad dofednod, gan gynnwys y rhai â llai na 50 o adar, yn cael eu hannog i roi manylion am eu heidiau ar y Gofrestr Dofednod. Bydd hyn yn sicrhau bod modd cysylltu â hwy ar unwaith os bydd achosion o ffliw adar fel y byddant mewn sefyllfa i weithredu i warchod eu haid cyn gynted â phosibl.

- Mae Llywodraeth Cymru a'r APHA yn ystyried ymweliadau â busnesau cyflenwi dofednod (ieir, hwyaid ac ati) yng Nghymru nad ydynt wedi'u cynnwys yn eu trefniadau ymweld arferol fel APHA EMI.

- Hysbysebu mewn cylchgronau dofednod arbenigol ac ar wefannau cymdeithasau dofednod
- Digwyddiadau ar gyfer tyddynwyr
- Erthyglau yn Gwlad.

35. Bu peth trafod ar sut i ddatrys y broblem o ganfod faint o geidwaid dofednod sydd heb gofrestru. Hefyd gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet am farn y Grŵp ar gewyll wedi'u cyfoethogi a sut y gallai Cymru fod yn wlad lle mae 100% o'r wyau a gynhyrchir yn wyau buarth.

***Pwynt Gweithredu 16> Aelodau'r Grŵp i anfon eu sylwadau ar gewyll wedi'u cyfoethogi i'r Ysgrifenyddiaeth i'w coladu ar gyfer Ysgrifennydd y Cabinet.***

## Eitem Agenda 9. Unrhyw Fater Arall

36. Mae pryderon wedi'u codi mewn sawl man ynglŷn ag effeithiolrwydd gwaith Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar waith Grŵp AHWF Cymru a gallai effeithio ar enw da'r Grŵp.

***Pwynt Gweithredu 17> Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.***

37. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a chadarnhawyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 9 Mawrth ym Mharc Cathays.

**DIWEDD**